**CANLLAWIAU AR GWBLHAU TEMPLED ADRODDIAD EITHRIADAU**

Isod mae geiriad neu awgrymiadau i'ch helpu i lenwi'r ffurflen eithriadau ar-lein.

**EICH MANYLION:**

| |
|---|
| Eich Pennaeth Gwasanaeth – **Dewiswch opsiwn o'r gwymplen** |

**RHEOLAU GWEITHDREFNAU CONTRACTAU:**

| |
|---|
| Gwerth yr Eithriad – **Dewiswch Werth** |

| |
|---|
| RhGC - **Cadarnhewch eich bod wedi deall pob RhGC** |

| |
|---|
| CaseRef - **Cynhyrchir yn awtomatig gan y system** |

**Cais:**

| |
|---|
| Mae'n ofynnol i chi ddewis y cymal perthnasol yn Adran 13 y Rheolau o ran Gweithdrefnau Contractau sy'n berthnasol i'r cais hwn (dewiswch y Cymal) * |
| **Ceir cwymplen o gymalau i ddewis o'u plith a gymerir o Gymal 13 yn y Rheolau o ran Gweithdrefnau Contractau. Gall yr Uned Caffael Corfforaethol gynghori ynglŷn â'r un mwyaf priodol os nad ydych yn ansicr.** |

| |
|---|
| A yw'r Cais hwn am Eithriad yn ymwneud â Nwyddau, Gwasanaethau neu Waith? |
| **Dewiswch opsiwn o'r gwymplen** |

**Manylion:**

| |
|---|
| Teitl yr Eithriadau - Rhowch ddisgrifiad cryno o'r cais |
| **Dylech gynnwys teitl y gofyniad yn unig yma** |

| |
|---|
| 1. Disgrifiad o'r Nwyddau/Gwasanaeth/Gwaith |
| **Rhowch rywfaint o gefndir y Nwyddau/Gwasanaethau/Gwaith sydd ei angen. Byddwch yn gryno! RHAID i chi nodi yma a oes contract / fframwaith sy'n cydymffurfio wedi bod ar waith ar gyfer y gofyniad hwn cyn gwneud y cais hwn am eithriad. Dylech gynnwys manylion y gwerthoedd a'r** |

**dyddiadau dechrau a gorffen. Neu rhowch fanylion os gofynnwyd am eithriad blaenorol (dyddiadau a gwerthoedd) – cadarnhewch a gafodd ei gymeradwyo neu beidio (yn dal i aros yn y system) rhowch ddyddiadau unrhyw gymeradwyaeth).**

| Mae'r cais hwn am eithriad yn gysylltiedig â'r Cyflenwr(wyr)/Sefydliad(au) canlynol |
|---|
| **Rhowch enw(au) y cyflenwr(wyr)** |

| 2. Y Rhesymau dros geisio Eithriad |
|---|
| **Pam mae angen i chi ofyn am eithriad? Pam na allwch chi ymgymryd ag ymarfer cystadleuol yn unol â'r Rheolau o ran Gweithdrefnau Contractau? Rhowch fanylion.**<br>**Dylech gynnwys esboniad ar gyfer y dewis o gyflenwr, sut y byddwch yn sicrhau gwerth am arian a'ch cynllun ar gyfer gwiriadau diwydrwydd dyladwy (e.e. Yswiriant, Iechyd a Diogelwch, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data ac ati.**<br>**Esboniwch y trefniadau cytundebol y byddwch yn eu rhoi ar waith gyda'r cyflenwr hwn (nodwch y Telerau a'r Amodau y byddwch yn eu defnyddio).**<br><br>**Esboniwch a yw hyn yn barhad o drefniant presennol (contract/fframwaith ffurfiol neu eithriad a gymeradwywyd yn flaenorol – nodwch pa un)**<br>**Neu a yw hyn yn ofyniad newydd, os felly nodwch hyn.** |

| 3. Unrhyw Gontractau/Fframweithiau eraill y gellid eu defnyddio |
|---|
| Oes / Nac oes |
| **Os oes yna gontractau/fframweithiau eraill, esboniwch pam na ellir defnyddio'r rhain ar gyfer y gofyniad hwn?** |

| 4. Darpariaeth yn y Dyfodol ar ôl i gyfnod yr eithriad hwn ddod i ben |
|---|
| **Os ydych yn rhagweld y bydd yna ofyniad parhaus am nwyddau, gwasanaethau neu waith y tu hwnt i'r eithriad hwn, dylech gynnwys manylion y cynlluniau ar gyfer ymarfer tendr yn y dyfodol a'r amserlenni fydd eu hangen. Os nad yw hyn yn hysbys ar hyn o bryd, rhowch gymaint o fanylion ag sy'n hysbys.** |

| 5. A oes cais am eithriad wedi'i gymeradwyo'n flaenorol ar gyfer y gofyniad hwn? |
|---|
| Oes / Nac oes |
| **Os mai 'Oes' yw'r ateb':** |

| |
|---|
| Cyfeirnod yr eithriad blaenorol (Er gwybodaeth yn unig) **Rhowch y cyfeirnod ar gyfer yr adroddiad eithriadau blaenorol** |
| Gwerth yr eithriad a gymeradwywyd yn flaenorol* (Er gwybodaeth yn unig) **Rhowch werth yr adroddiad eithriadau blaenorol** |
| Gwerth y cais hwn am eithriad **Rhowch werth yr adroddiad eithriadau hwn** |

| |
|---|
| **Os mai 'Nac oes' yw'r ateb:** |
| Gwerth Cyfnod y Contract Eithriadau hwn **Rhowch werth yr adroddiad eithriadau hwn** |

| |
|---|
| 6. Amserlenni |
| 6.1 Dechrau Cyfnod yr Eithriad **Rhowch ddyddiad dechrau** |
| 6.2 Diwedd yr Eithriad **Rhowch ddyddiad gorffen** |

| |
|---|
| 7. Gofynion Cyfreithiol - A oes unrhyw faterion cyfreithiol a fydd yn effeithio ar y gofyniad hwn neu'r safonau deddfwriaethol sy'n ofynnol? |
| **Dylech gynnwys manylion os yw hwn yn ofyniad statudol ac unrhyw ddeddfwriaeth y mae'n rhaid i'r Awdurdod gadw ati mewn perthynas â'r eithriad hwn.** |

| |
|---|
| 8. Arbedion Effeithlonrwydd (£) - Nodwch unrhyw arbedion effeithlonrwydd arfaethedig neu osgoi costau a fydd yn deillio o'r eithriad hwn. |
| **8.1 Arbedion Effeithlonrwydd (£) os na ragwelir unrhyw arbedion effeithlonrwydd, nodwch '0'** |
| **8.2 Arbedion Effeithlonrwydd - Eglurwch y rhesymeg dros yr arbedion effeithlonrwydd a nodwyd yn 8.1 uchod a'r cyfnod y mae'n berthnasol iddo** |

| |
|---|
| 9. Goblygiadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Gwarchod Cyflogaeth) (TUPE) |
| **Dylech ond gynnwys manylion Tupe lle bydd newid cyflenwr o ganlyniad i'r eithriad hwn. Peidiwch â chynnwys manylion unrhyw oblygiadau Tupe disgwyliedig o ganlyniad i unrhyw ymarfer tendro cystadleuol yn y dyfodol.** |

| |
|---|
| Nodwch Swyddog yr Uned Caffael Corfforaethol sy'n gyfrifol am y Categori y mae'r gofyniad hwn yn rhan ohono (os ydych yn ansicr, cysylltwch â'r Uned Caffael Corfforaethol):- * |

**Dewiswch Reolwr Categori priodol o restr yr Uned Caffael Corfforaethol.**

PWYSIG

Ar gyfer eithriadau sy'n werth dros £30,000 (gan gynnwys TAW), mae'n ofynnol i'r Uned Caffael Corfforaethol o dan Ddeddf Caffael 2023 osod Hysbysiad Manylion Contract.

Ar gyfer eithriadau sy'n werth dros drothwy'r DU, mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r Uned Caffael Corfforaethol (CPU) o dan Ddeddf Caffael 2023 osod Hysbysiad Tryloywder drwy'r porth caffael, Gwerthwch i Gymru. (Mae'r hysbysiad hwn yn hysbysu cyflenwyr a'r cyhoedd o'r bwriad i ddyfarnu contract yn uniongyrchol ac yn darparu cyfiawnhad dros y dull hwn). Mae'n rhaid cadw Cyfnod Segur o 8 diwrnod gwaith cyn y gellir ymrwymo i gontract. Yna mae'n rhaid gosod Hysbysiad Manylion Contract o fewn 30 diwrnod ar ôl dyfarnu'r contract.